PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Heriau ynganu dysgwyr heb Saesneg fel iaith gyntaf

**Marian Brosschot**

*Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor*

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

## Cefndir

- Mae **cefndir ieithyddol** siaradwr yn medru effeithio ar ei gaffaeliad o seiniau newydd (Müller a Ball, 1999; Derwing a Munro, 2015).
- Mae ymchwil ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg wedi ei seilio ar siaradwyr **iaith gyntaf Saesneg** (Brake, 2012; Rees a Morris, 2018; Williams a Cooper, 2021).
- Nod: Beth am ddysgwyr y Gymraeg **â chefndir ieithyddol gwahanol**? E.e. siaradwyr iaith gyntaf (L1) **Sbaeneg** yn y Wladfa, Patagonia.

## Cyd-destun

- Llafariaid: Mae i'r Gymraeg **13 sain** (Hannahs 2013). Mae i'r Sbaeneg **5 sain** (Bell, 2017).
- Cytseiniaid: Mae rhai seiniau yn bodoli yn y Gymraeg sydd ddim yn y Sbaeneg e.e. /ɬ/ <ll> neu /v/ <f>. Mae rhai seiniau yn cael eu cynanu (*articulate)* yn wahanol yn y ddwy iaith e.e. <p> neu <c>.
- Mae Sbaeneg yr Ariannin (*rioplatense)* yn wahanol i Sbaeneg Sbaen.
- Mae goslefu yn y ddwy iaith yn wahanol.

## Cwestiynau Ymchwil

1. Beth yw canfyddiad dysgwyr a thiwtoriaid y Wladfa o heriau ynganu dysgwyr Cymraeg y Wladfa?
2. Sut mae canfyddiadau dysgwyr L1 Sbaeneg o heriau ynganu yn cymharu â chanfyddiadau eu tiwtoriaid?



## Dull 1: Grwpiau Ffocws

- **Tiwtoriaid**: 9 (o'r Ariannin *n*=5, o Gymru *n*=4).
  - Dau grŵp ffocws, ar-lein.
- Cwestiynau agored + caeedig (Data ansoddol).
  - Dadansoddiad thematig o'r heriau

## Dull 2: Holiaduron

- **Dysgwyr**: 24 (iaith gyntaf Sbaeneg, amrywiaeth o lefelau).
  - Wedi ei seilio ar ganlyniadau'r grwpiau ffocws.
  - Graddfa *Likert* i fesur hyder (Data meintiol).
- Integreiddio'r canlyniadau meintiol â'r ansoddol.

## Canlyniadau 1

| Crynodeb o'r heriau ynganu yn ôl y tiwtoriaid yn yr astudiaeth – o'r mwyaf heriol i'r lleiaf (yn ôl dwysedd y drafodaeth) | |
|---|---|
| **Her 1** | Ynganu'r cytseiniaid 'diarth' /ɬ/ <ll> a /r̥/ <rh> |
| **Her 2** | Ynganu <y> |
| **Her 3** | Ynganu'r ffrwydrolion /$p^h$, $t^h$, $k^h$/ <p, t, c> a /g/ <g> |
| **Her 4** | Gwahaniaethu rhwng /d/ <d> ac /ð/ <dd> |
| **Her 5** | Ynganu <u> |
| **Her 6** | Ynganu /χ/ <ch> |
| **Her 7** | Gwahaniaethu rhwng /b/ <b> a /v/ <f> |
| **Her 8** | Ynganu /s/ cyn cytsain |
| **Her 9** | Goslefu |

## Canlyniadau 2

| Heriau ynganu yn ôl y dysgwyr – o'r mwyaf heriol i'r lleiaf heriol (yn ôl lefelau hyder) | | | |
|---|---|---|---|
| **Her 1** | Ynganu <dd> /ð/ | **Her 9** | Ynganu <b> /b/ |
| **Her 2** | Ynganu <d> /d/ | **Her 10** | Ynganu <h> /h/ |
| **Her 3** | Ynganu <rh> /r̥/ | **Her 11** | Ynganu <sg> /sk/ |
| **Her 4** | Ynganu <u> /i/ neu /ɨ/ | **Her 12** | Ynganu <f> /v/ |
| **Her 5** | Ynganu <ll> /ɬ/ | **Her 13** | Ynganu <ch> /χ/ |
| **Her 6** | Ynganu <y> /ə/ | **Her 14** | Ynganu <c> /k/ |
| **Her 7** | Ynganu <g> /g/ | **Her 15** | Ynganu <th> /θ/ |
| **Her 8** | Ynganu <t> /t/ | **Her 16** | Ynganu <p> /p/ |

## Casgliadau

- **Gwahaniaeth barn** rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr: Lefelau hyder uchel gan y dysgwyr > Beth yw canfyddiad (*perception)* dysgwyr o seiniau'r Gymraeg?
- Rhai seiniau Cymraeg yn heriol i ddysgwyr iaith gyntaf Sbaeneg. **Dylanwad ffonoleg y Sbaeneg** i'w weld yn yr heriau.
- **Amrywioldeb dysgwyr**: Mae siaradwyr L1 Sbaeneg yr Ariannin yn wynebu heriau gwahanol i siaradwyr L1 Saesneg.

## Ymchwil Pellach

- **Hyfforddiant ynganu** i diwtoriaid.
- **Dylanwad ieithoedd cyntaf** eraill ar ynganu seiniau'r Gymraeg.
- **Goblygiadau i'r maes** Cymraeg i Oedolion.

**Cyfeiriadau**:

Bell, E.A. (2017), 'Perception of Welsh vowel contrasts by Welsh-Spanish bilinguals in Argentina' Proceedings of the Linguistic Society of America, 2 (11), 1–9.

Brake, P. (2012), 'Astudiaeth gychwynnol o wallau iaith llafar dysgwyr Cymraeg i oedolion profiadol' Gwerddon, 12, 24–52.

Derwing, T.M. a Munro, M.J. (2015), Pronunciation fundementals: Evidence-based perspectives for L2 teaching and research (Amsterdam, Philadelphia: John Benjamins B.V.)

Hannahs, S.J. (2013), The Phonology of Welsh (Croydon: Oxford University Press).

Müller, N. a Ball, M.J. (1999), 'Examining the acquisition of Welsh phonology in L1 English speakers' Journal of Celtic Language Learning, 4, 16–32.

Rees, I.W. a Morris, J. (2018), 'Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o anawsterau ynganu ymhlith dysgwyr yr iaith' Gwerddon, 27, 39–66.

Williams, M. a Cooper, S. (2021), 'Adult new speakers of Welsh: Accent, pronunciation and language experience in South Wales' Languages, 6 (2), 86.

**Manylion cyswllt:**
mrb18ytf@bangor.ac.uk

@M.AR_BROSS

